

Ms Karen Harrowing
Nuffield Health
Epsom Gateway
Ashley Avenue
Epsom
Surrey
KT18 5AL

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

17^{eg} Mehefin 2014

Annwyl Ms Harrowing,

Ynglŷn ag: Ymweliad lle rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o Cardiff Bay Hospital gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar 8^{fed} Mai 2014

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad lle rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw â Cardiff Bay Hospital ar 8^{fed} Mai 2014.

Golwg Gyffredinol ar y Sefydliad Gofal Iechyd

Ansawdd y Driniaeth a'r Gofal

Mae Cardiff Bay Hospital yn eiddo i Nuffield Health ac yn cael ei redeg ganddo. Elusen gofrestredig yw Nuffield Health ac roedd Cardiff Bay Hospital yn gallu cyrchu at amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau. Roedd trefniadau llywodraethu wedi'u sefydlu, roedd holl bolisiau a gweithdrefnau Nuffield Health ar gael yn electronig ac roedd gan y staff perthnasol fynediad. Roedd ystod eang o wybodaeth lywodraethu, archwilio a pherfformiad ar gael, eto'n electronig. Fodd bynnag, polisïau a gweithdrefnau Nuffield Health oeddent ac nid oeddent i gyd wedi cael eu haddasu ar gyfer gweithgareddau lleol. Dylid gwneud hynny.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau i gyd yn cael eu hadolygu ac roedd y rhain ar gael. Roedd staff wedi cael gwybod am y newidiadau a'u hatgoffa i droi at y polisïau ar fewnwyd yr ysbyty. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllawiau i Gleifion wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau.

Roedd y system i gofnodi cyffuriau rheoledig yn cael ei hadolygu a chanfuwyd bod y cofnodion hyn mewn trefn. Roedd hyfforddiant rheoli meddyginiaethau yn cael ei gynllunio ar gyfer pawb o'r staff nyrsio a bydd hyn yn ychwanegol at y profion cyfrifo cyffuriau y mae'r staff yn eu sefyll yn rheolaidd. Nid oedd mewnrwyd yr ysbyty'n gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad felly ni fu'n bosibl adolygu asesiadau risg fel y bwriadwyd.

Roedd barn cleifion yn cael ei nodi'n barhaus gydol y flwyddyn ar ffurf holiaduron bodlonrwydd cleifion. Caent eu hadolygu'n gyson gan y rheolwr cofrestredig, sy'n mynd i'r afael ar unwaith ag unrhyw faterion sy'n peri pryder. Ymysg y meysydd a arolygwyd roedd glanweithdra a chyfleusterau, gwneud apwyntiadau a gweithdrefnau, gofal clinigol a'r gwasanaeth arlwyd.

Roedd yna berson cyswllt rheoli heintiau a chysylltiadau â thimau rheoli heintiau Nuffield Health.

Rheoli a Phersonél

Ar adeg ein hymweliad, roedd nifer y staff yn ymddangos yn briodol ac roedd trefniant staff banc ar waith i gyflenwi yn ystod absenoldebau staff wedi'u cynllunio neu absenoldebau annisgwyl. Roedd Cardiff Bay Hospital wrthi ar y pryd yn recriwtio rhagor o nyrsys banc yn enwedig yn arbenigedd pediatreg a theatrau.

Roedd cofnodion hyfforddi ac addysg yn cael eu cadw'n dda. Roedd prosesau a chofnodion rheoli perfformiad ar waith, yn cwmpasu arfarnu a goruchwyllo staff. Roedd y staff i gyd wedi cael hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr ac roedd cyfleoedd addysg barhaus ar gael iddynt.

Câi'r staff clinigol gefnogaeth i gynnal eu cofrestriad proffesiynol a gallent fanteisio'n gyson ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Roedd systemau adolygu perfformiad unigol yn cael eu hadolygu ar y pryd.

Rheoli Cofnodion

Roedd yr holl gofnodion sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth ar gael ac roedd y dogfennau i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Roedd yr ysbyty'n cadw at yr holl ofynion diogelu data a chanllawiau Caldicott a nodwyd bod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n foddhaol.

Adolygwyd sampl o gynlluniau/asesiadau gofal a dogfennau gofal perthnasol eraill. Roedd cynlluniau gofal ac asesiadau cysylltiol yn cael eu cofnodi'n dda ac roedd tystiolaeth glir fod cleifion yn rhan o'r broses o gynllunio gofal.

Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau

Mae'r ysbyty mewn man cyfleus yn ardal bae Caerdydd, gyda chyfleusterau parcio addas gerllaw.

Mae'r ysbyty wedi'i adeiladu'n bwrpasol gyda chyfleusterau modern ac amrywiaeth dda o gyfarpar. Roedd prosesau wedi'u sefydlu ar gyfer glanhau, diheintio a sterileiddio offeryniaeth theatr a chaiff cyfarpar arbenigol ei logi fel sy'n ofynnol. Gwelwyd bod rhai ardaloedd storio yn orlawn gydag eitemau'n cael eu storio ar silffoedd uchel, sy'n risg o ran iechyd a diogelwch. Trafodwyd yr angen i gywiro hyn ar ddiwrnod yr ymweliad. Yn fewnol, roedd yr ysbyty'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda

Ers y cofrestriad gwreiddiol rhoddwyd y gorau i'r gampfa gan addasu'r lle ar gyfer defnydd gweinyddol. Roedd y tair swyddfa flaenorol ar y llawr cyntaf yn wag, yn disgwyl am waith addasu i'w troi'n dair ystafell ymgynghori ychwanegol.

Arolygwyd cofnodion cynnal a chadw'r larymau tân, diffoddyddion tân, goleuadau argyfwng a'r gwifrau trydanol i gyd, ac yn gyffredinol roeddent yn drefnus. Dylai'r profion wythnosol ar fannau seinio'r larwm, sy'n mynd o barth i barth yn ei dro, sicrhau bod pob parth yn cael ei brofi o fewn cyfnod o dair wythnos ar ddeg. Nodwyd bod sawl un o'r ffitiadau goleuadau argyfwng yn ddiffygiol, ac mae angen gosod unedau newydd i sicrhau bod y system yn parhau i weithio. Roedd asesiad perygl tân wedi cael ei wneud; fe'i paratowyd ar 13^{eg} Medi 2013. Roedd hwn yn nodi nad oes angen y ddwy set o risiau dianc cefn allanol i ddianc o dan y patrwm defnydd presennol.

Roedd Profion ar Gyfarpar Cludadwy (PAT) yn cael eu gwneud yn fewnol, ac arolygwyd y cofnodion. Dylai'r rhain gael eu hehangu i gynnwys canlyniadau'r profion.

Roedd y lifft teithwyr a'r cyfarpar codi cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac roedd tystysgrifau arolygu yswiriant yn eu lle. Roedd rhywfaint o amheuaeth ynglŷn ag effeithlonrwydd batri'r cyfarpar codi cleifion, a dylid monitro hyn.

Roedd Asesiad Risg Clefyd y Lleng Filwyr yn ei le, ac roedd profion ac arolygiadau rheolaidd o'r systemau dŵr yn cael eu cynnal yn fewnol. Mae'n ymddangos bod gwrthdaro o ran tymheredd cawodydd rhwng gofyniad Asesiad Risg Clefyd y Lleng Filwyr a thymheredd cyflenwi diogel, ac mae angen datrys hyn.

Roedd y tanciau storio dŵr oer wedi cael eu glanhau ym mis Ionawr 2014, ac roedd canlyniadau'r profion ansawdd dŵr yn sgil hynny yn foddhaol. Dylid sicrhau bod y llif a thymereddau dychwelyd y caloriffydd yn cael eu gwirio bob mis.

Roedd contract gwastraff clinigol ar waith, ond nid oedd copi cyfredol o hysbysiad 'Tystysgrif Gofrestru' ar gael gogyfer â'r contractwr penodedig.

Amlygodd yr ymweliad y meysydd isod sy'n haeddu cydnabyddiaeth:

- Roedd llawer o wybodaeth yn y papurau ar gyfer cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac archwiliadau clinigol ac roeddent yn adlewyrchu'r cyfarfodydd a'r camau gweithredu blaenorol
- Roedd nifer ac amrywiaeth y staff ar ddyletswydd yn briodol i ofynion y cleifion ac roedd systemau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r datblygiadau ymarfer diweddaraf
- Mae amrywiaeth eang o gyfarpar clinigol ar gael ac mae'r ysbyty wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, mae'n lân ac o safon uchel

Amlygodd yr ymweliad y materion isod a nodwyd y rhain mewn trosolwg llafar i'r rheolwr cofrestredig ar ddiwedd yr ymweliad.

Gofynion Newydd o'r Arolygiad hwn

Gweithredu sy'n Ofynnol	Amserlen Gwblhau	Rheoliad
Y polisïau ar waith yw rhai Nuffield Health ac nid oeddent wedi'u haddasu at ddefnydd lleol. Roedd angen diweddarau nifer ohonynt.	48 Awr	Rheoliad 8 (1) (3) (4)
Sicrhau bod y profion ar fannau seinio'r larwm tân yn symud o un parth i'r nesaf fel bod pob parth yn cael ei brofi mewn cyfnod o dair wythnos ar ddeg.	2 Wythnos	Rheoliad 26(4)(a)
Gosod ffitiadau goleuadau argyfwng newydd yn lle'r rhai diffygiol a nodwyd yn y profion diweddar.	2 Wythnos	Rheoliad 26(4)(b)
Ehangu'r cofnodion PAT i gynnwys canlyniadau'r prawf.	Ar y gweill	Rheoliad 26 (2)(a)
Monitro effeithlonrwydd batri'r cyfarpar codi cleifion.	Ar y gweill	Rheoliad 15(2)
Datrys mater defnyddio unedau cawod trydanol yn ddiogel.	2 Wythnos	Rheoliad 26 (2)(a)
Gwirio llif a thymereddau dychwelyd y caloriffydd bob mis.	4 Wythnos	Rheoliad 26(2)(a)
Darparu copi o 'Dystysgrif Gofrestru' y contract gwastraff clinigol.	4 Wythnos	Rheoliad 9(1)(n)

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Argymhellion Ymarfer Da
• Hyfforddiant rheoli meddyginiaethau yn flynyddol i staff sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau • Angen ffurfioli'r systemau goruchwyllo clinigol

Hoffai AGIC ddiolch i'r holl aelodau staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi pe baech yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Tim Atter, Cyfarwyddwr yr Ysbyty/ Rheolwr Cofrestredig Cardiff Bay Hospital.

Yn gywir



Phil Price

Rheolwr Arolygu